OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 372

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022

## RHAN 9

### Diwygiadau amrywiol a chanlyniadol

*Diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau sefydlu*

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021**

**40.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11,".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y Canolbarth os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y Canolbarth;

(ii) is-bwyllgor i CBC y Canolbarth;

(**1**) O.S. 2021/342 (Cy. 96).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Bannau Brycheiniog o CBC y Canolbarth bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021**

**41.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(3) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(4) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(5) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y De-ddwyrain os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y De-ddwyrain;

(ii) is-bwyllgor i CBC y De-ddwyrain;

(**2**) O.S. 2021/343 (Cy. 97).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(6) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(7) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Bannau Brycheiniog o CBC y De-ddwyrain bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021**

**42.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(b) yn y diffiniad o "aelod Eryri", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(3);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri" ("*the Snowdonia National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(2B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y Gogledd os yw'r person—

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y Gogledd;

(ii) is-bwyllgor i CBC y Gogledd;

(**3**) O.S. 2021/339 (Cy. 93).

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(2B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor neu aelod Eryri o CBC y Gogledd bleidleisio drwy ddirprwy."

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021**

**43.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(d) (cychwyn darpariaethau penodol) hepgorer "11".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "aelod Bannau Brycheiniog", yn lle "reoliad 8" rhodder "reoliad 8(1)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Awdurdod Parc Cenedlaethol";

(c) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod dirprwyol" ("*substitute member*") yw person a benodir o dan reoliad 7(2) neu 8(4);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro" ("*the Pembrokeshire Coast National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);";

"ystyr "Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog" ("*the Brecon Beacons National Park Authority*") yw'r awdurdod a sefydlwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2803);".

(4) Yn rheoliad 8(3B)(a), ar ôl "cytuno" mewnosoder "yn unfrydol".

(5) Yn rheoliad 9(2)(b), ar ôl "eraill" mewnosoder "sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad".

(6) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Anghymhwysiad rhag bod yn aelod cyfetholedig**

**9A.**—(1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyfethol yn aelod o CBC y De-orllewin os yw'r person—

(**4**) O.S. 2021/352 (Cy. 104).

(a) yn dal swydd daledig neu gyflogaeth y gwneir neu y cadarnheir penodiad neu etholiad iddi, neu y caniateir gwneud neu gadarnhau penodiad neu etholiad iddi, gan—

(i) CBC y De-orllewin;

(ii) is-bwyllgor i CBC y De-orllewin;

(iii) deiliad swydd daledig neu gyflogaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (i) neu (ii), neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan adran 80B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 rhag bod yn aelod o—

(i) cyngor cyfansoddol;

(ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;

(iii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (anghymhwysiad yn rhinwedd dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol)."

(7) Ym mharagraff 5(a) o'r Atodlen, yn lle paragraff (i) rhodder—

"(i) rheoliad 8(3B);

(ia) rheoliad 17, neu".

(8) Ar ôl paragraff 7(3) o'r Atodlen, mewnosoder—

"(3A) Caiff gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth i aelod cyngor, aelod Bannau Brycheiniog neu aelod Arfordir Penfro o CBC y De-orllewin bleidleisio drwy ddirprwy."

*Darpariaethau amrywiol mewn deddfiadau eraill*

**Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cyfansoddiad etc.**

**44.** Ar ôl adran 37(4) o Ddeddf 2000 (cyfansoddiad awdurdod lleol) mewnosoder—

"(5) This section applies to a corporate joint committee established by regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 as it applies to a local authority which are operating executive arrangements and in that application—

(a) references to a "local authority" or "authority" are to be read as references to a corporate joint committee;

(b) subsection (2) is to be treated as if it were omitted;

(c) the references in subsection (4) to "members and co-opted members" are to be read as references to members of a corporate joint committee."

**Ymchwil a chasglu gwybodaeth**

**45.** Yn lle adran 141(3) o Ddeddf 1972 (ymchwil a chasglu gwybodaeth) rhodder—

"(3) This section has effect—

(a) in relation to a principal council in Wales—

(i) as if any reference to a council were a reference to the principal council, and

(ii) as if any reference to a county were a reference to the principal area;

(b) in relation to a corporate joint committee—

(i) as if any reference to a council were a reference to the corporate joint committee,

(ii) as if any reference to a county were a reference to the area specified as the corporate joint committee's area in regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 establishing the corporate joint committee, and

(iii) as if any reference to any other local authority in the county were a reference to any local authority in the corporate joint committee's area."

**Cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch**

**46.** Yn adran 28(6) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974(**5**) (cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth), ar ôl "include" mewnosoder "a corporate joint committee established by regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021,".

**Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â chod ymarfer a gyhoeddir o dan adran 2 o Ddeddf 1980**

**47.** Yn adran 2(1) o Ddeddf 1980 (dyletswydd awdurdodau i gyhoeddi gwybodaeth), ar ôl paragraff (ha) mewnosoder—

"(hb) a corporate joint committee established by regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;".

**Tir a ddelir gan gyd-bwyllgor corfforedig**

**48.** Yn Neddf 1980—

(a) yn adran 99(4) (cyfarwyddydau i waredu tir), ar ôl paragraff (aa) mewnosoder—

"(ab) a corporate joint committee established by regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;";

(b) yn Atodlen 16 (cyrff y mae Rhan 10 yn gymwys iddynt), ar ôl paragraff 1A mewnosoder—

"**1B.** A corporate joint committee established by regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021."

**Yr hawl i absenoldeb teuluol**

**49.** Yn adran 33 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**6**) (dehongli Rhan 2), yn y lle priodol mewnosoder—

"mae "awdurdod lleol" ("*local authority*") yn cynnwys cyd-bwyllgor corfforedig;".

**Swydd daledig neu gyflogaeth y mae anghymhwysiad rhag bod yn aelod yn gymwys iddi**

**50.** Yn adran 80C(1) o Ddeddf 1972 (swydd daledig neu gyflogaeth y mae anghymhwysiad yn gymwys iddi)—

(a) ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer "or";

(b) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(ca) a corporate joint committee established in relation to the area of the local authority; or";

(**5**) 1974 p. 37.
(**6**) 2011 mccc 4.

(c) ym mharagraff (d) yn lle "or (c)" rhodder ",(c) or (ca)".